

Cynllun Dinas Llanelwy a Chynllun Ardal Llanelwy

“Edrych Ymlaen gyda'n Gilydd”

2013-2020

Diwygiedig 13/11/2013

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 2
Cynllun Dinas Llanelwy	Tudalen 3
Cysylltiadau rhwng y Ddinas a'r Ardal	Tudalen 15
Y Cynllun Ardal	Tudalen 17
Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal	Tudalen 23
Atodiad Ystadegol	Tudalen 24

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.

I gyflawni'r nod hon, mae'r Cyngor Sir yn gwahodd y cynghorau tref/ dinas a chymuned a'r busnesau, y gymuned a'r sectorau gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi/ dinasoedd a'r cymunedau anghysbell llai sy'n gysylltiedig â nhw, i ymuno â'i gilydd i ddatblygu “cynlluniau trefol”, neu yn yr achos hwn, cynllun dinas. Fe fydd y rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac fe fyddan nhw'n nodi

- **y sefyllfa bresennol yn y dref/ ddinas**
- **heriau allweddol a chyfleoedd y byddant yn eu hwynebu dros y degawd nesaf**
- **gweledigaeth ar gyfer pob tref / dinas a fydd yn rhoi dyfodol cynaliadwy iddi, a**
- **chamau gweithredu realistig a chyraeddadwy a fydd yn gwireddu'r weledigaeth honno.**





CYNLLUN DINAS
LLANELWY

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”
2013 – 2020

Hydref 2013

Llanelwy

Saif Llanelwy ar lannau dwy afon a chaiff ei dominyddu gan ei chadeirlan, a ystyrir yn gadeirlan leiaf Prydain. Mae cymeriad y dref a'r ardal o'i chwmpas wedi ei lunio gan fwyaf gan y cysylltiad yma ond mae Llanelwy hefyd â chysylltiadau cadarn â geiriau a cherddoriaeth ac mae'n gartref i Wyl Gerddoriaeth Ryngwladol Gogledd Cymru a gynhelir yn flynyddol.

Mae gosodiad naturiol Comin Llanelwy a Phlas Roe ar yr afon yn boblogaidd iawn â cherddwyr a theuluoedd. Mae'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych yn Llanelwy.

Mae yna ardal chwarae ardderchog i blant, canolfan hamdden gyda chae chwarae pob tywydd, MUGA (ardal gemau aml-ddefnydd), cyrtiau tenis, lawnt fowlio a chlwb criced.

Poblogaeth dinas Llanelwy yw 3,355.

Mae'r ardal o amgylch dinas Llanelwy hefyd yn cynnwys Cefn Meiriadog, Tremeirchion, Rhualt, Trefnant a'r Waen ac mae'r cymunedau hyn yn gartref i 3,619 pellach o bobl.

Ble'r ydym ni arni?

Pobl

O'i gymharu â'r sir gyfan, mae ffin ddinesig Llanelwy â

- **chyfran debyg o bobl dros 65 oed,**
- **canran uwch o bobl dros 85 oed,**
- **llai o bobl ifanc o dan 15 oed ond canran uwch yn ward Gorllewin Llanelwy,**
- **llai o aelwydydd sy'n hawlio budd-dal tai neu Dreth y Cyngor**
- **cyfran uwch o aelwydydd sy'n orlawn**

Cymuned

O'i gymharu â'r sir gyfan, mae mwy o bobl yn ninas Llanelwy

- **wedi eu geni yng Nghymru, ond**
- **mae llai o bobl yn gallu siarad Cymraeg.**

Mae Llanelwy'n nodedig am ei chyfradd troseddu isel, yn enwedig o ran digwyddiadau o drais yn erbyn y person, difrod troseddol a dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fformiwla i fesur amddifadedd. Mae Cymru wedi ei rhannu'n 1896 o ardaloedd a rhai ohonyn nhw'n llai na wardiau'r Cyngor Sir, er nad yw hyn yn wir yn achos Llanelwy. Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig â sgôr o 1896. Nid yw'r sgorau mewn blynyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser.

Yn rhifyn 2011 y Mynegai, mae dosbarthiad Gorllewin Llanelwy wedi cynyddu o'i gymharu â rhifyn 2008 a hynny'n dangos cynnydd mewn amddifadedd yn yr ardal honno. Fe esbonnir hynny gyda chwymp mewn incwm a chynnydd mewn diweithdra o'i gymharu â gweddill Cymru. Ni chafwyd unrhyw newid arwyddocaol yn nosbarthiad Llanelwy yn ystod yr un cyfnod.

Swyddi

O'i gymharu â'r sir gyfan,

- mae mwy o bobl sy'n byw yn Llanelwy yn gweithio yn y sector gyhoeddus (ac mae mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn gweithio yn y sector yma nac mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall ym Mhrydain Fawr),
- mae llai o bobl yn gweithio ym maes manwerthu
- mae canran uwch o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu gyda'r ganran yn ward y Gorllewin yn arbennig o uchel o ran y sir
- mae llai o bobl yn cymudo dros 20km i weithio, ac
- mae canran debyg o bobl sydd o oed gwaith yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae incwm blynyddol aelwydydd yn Llanelwy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych.

Y lle

Y prif atyniad yn y ddinas ei hun ydi'r Gadeirlan a ddenodd oddeutu 9,000 o ymwelwyr yn ystod 2011. Fodd bynnag, bydd y Gadeirlan yn cynnal nifer o ddiwyddiadau mawreddog yn ystod y flwyddyn a'r rheiny'n denu llawer mwy o ymwelwyr eu hunain.

Mae yna 92 o welyau mewn llety graddedig i ymwelwyr yn y dref. Oriol House Country Hotel & Spa yw'r unig westy 4 seren yn y sir a Than yr Onnen yn y Waen yw'r unig "dŷ llety" 5 seren yn y sir.

Cyfraddau swyddi gwag ar gyfer adeiladau manwerthu - Hydref 2012

Llanelwy	3.5%	(2 uned)
Y DU	16.3%	(Colliers International)

Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol

Pobl

Cynigir hyd at 75 o unedau preswyl newydd ar gyfer cyn safle Ysbyty HM Stanley.

Mae tir sydd â chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yng nghyn safle ysgol gynradd Santes Gwenffrewi wedi cael ei brynu.

Nid yw'r datblygiadau preswyl oddi ar Heol yr Esgob ac ym Mryn Gobaith wedi eu cwblhau eto.

Cymuned

Mae cyllid tuag at gostau adeiladu canolfan gymunedol newydd ar safle ger y llyfrgell yn cael ei archwilio.

Mae'r rheiny sydd yn eu harddegau hŷn yn dweud nad oes yna ddim iddyn nhw ei wneud nac unlle iddyn nhw fynd.

Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid wedi datblygu Canolfan Ieuenctid gyda chyfleusterau ardderchog.

Mae yna glwb pêl-droed a chlwb criced gyda thimau ieuenctid.

Mae prosiect ynni dŵr yn cael ei ddatblygu yng nghored Cefn ar yr afon Elwy.

Yn dilyn y llifogydd yn 2012, mae arian wedi ei sicrhau ar gyfer Clwb Criced newydd ac mae'r llyfrgell wedi cael ei hadnewyddu a'i moderneiddio'n llawn

Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol

Swyddi

Mae yna amrywiaeth o fusnesau manwerthu a lletygarwch o fewn y dref.

Mae manwerthwyr arbenigol fel Foxon's, R.N. Williams a Chigyddion Daniel Jones yng nghanol y ddinas sy'n denu cwsmeriaid o ardal ehangach.

Mae llawer o'r 120 o fysis sy'n mynd i allfa siopa Tweedmill yn Nhrefnant bob mis yn mynd drwy Lanelwy i gyrraedd yno. Mae angen datblygu cyfleusterau'r Ddinas i gipio'r ymwelwyr hyn ddrwy ddarparu parc i fysiau, toiledau, siopau a thai bwyta.

Wedi'i leoli ar bwys y Ddinas yn ward Bodelwyddan, mae Parc Busnes Lanelwy yn ganolfan o bwys ar gyfer gweithgynhyrchu uwch ac yn faes twf allweddol. Mae datblygiad Parc Busnes Lanelwy yn debygol o fod yn thema allweddol o'r Rhaglen Ewropeaidd sydd ar y gweill. Mae New Vision a Vista yn datblygu tir yn hen Ffatri Wydr Pilkington a'r maes chwaraeon, fodd bynnag mae rhagor o dir ar gael i'w ddatblygu bellach. Mae nifer o fusnesau o ansawdd uchel yn y parc gan gynnwys OpTIC sydd yn ganolfan dechnoleg a deori opto-electronig gydag enw da rhyngwladol, ac sy'n cael ei gweithredu gan Brifysgol Glyndŵr.

Gallai fod gwell cysylltiadau rhwng y dref a'r parc busnes o ran busnesau'n gweithio gyda'i gilydd a'r isadeiledd ar hyd Ffordd Glascoed.

Mae perchnogion safle'r mart wedi nodi efallai y daw amser pryd y byddent yn dymuno gwerthu'r safle ac os felly byddai cyfle i gael defnydd arall iddo.

Y Lle:

Cafodd Dinas newydd Lanelwy'r statws fis Mawrth 2012 fel rhan o ddathliadau'r Jiwbilf Diemwnt.

Mae'r ddinas wedi ei lleoli yn agos iawn at yr A55 gan ddarparu rhwydwaith cludiant da i breswylwyr, cymudwyr a busnesau.

Mae Priffyrdd Sir Ddinbych yn cynnal adolygiad tri cham o barcio ac yn altro'r cyfyngiadau parcio. Yn parhau i fforio'r posibilrwydd o ffordd osgoi.

Byddai arwyddion brown i ymwelwyr ar gyfer Dyffryn Clwyd yn cynorthwyo ymwelwyr sy'n teithio ar hyd yr A55.

Mae byrddau gwybodaeth newydd ar gyfer ymwelwyr yn cael eu gosod yn ward y gorllewin.

Y Weledigaeth ar gyfer Llanelwy

Rydym ni am i Lanelwy

- gynnig ansawdd bywyd i'w chwennych sy'n atyniadol i breswylwyr o bob oed
- fod wedi cyflawni potensial y gadeirlan a gosodiad naturiol yr afon fel cyrchfan ymwelwyr ac
- gynnal a datblygu ymhellach ei economi nos fywiog



Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer y bobl

Beth rydym eisiau ei gyflawni:	Rydym am gyflawni hyn trwy:	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Erbyn pryd
Bu gwelliant mewn cyrhaeddiad addysgol	Sicrhau cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru i ymestyn ac adnewyddu Ysgol Glan Clwyd	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg Y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Cwblhau adolygiad ardal o ddarpariaeth gynradd bresennol a chytuno'r patrwm ar gyfer darpariaeth a gwaith gwella yn y dyfodol	Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg Y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
Tai priodol i bawb	Adeiladu unedau preswyl ar gyn safle Ysbyty HM Stanley a Santes Gwenffrewi a chwblhau'r datblygiadau Heol yr Esgob a Bryn Gobaith	Y sector breifat	1 – 5 mlynedd
	Ymchwilio i ddarpariaeth tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Ymchwilio i'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiadau preswyl	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd

Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer y gymuned

Beth rydym eisiau ei gyflawni	Rydym am gyflawni hyn trwy	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Erbyn pryd
Gwell cyfleusterau cymunedol i bobl o bob oed eu defnyddio	Datblygu canolfan gymunedol newydd ar dir yn agos at y llyfrgell.	Cymdeithas Gymunedol	1 – 5 mlynedd

Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer swyddi

Beth rydym eisiau ei gyflawni	Rydym am gyflawni hyn trwy	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Erbyn pryd
Cyflawni potensial llawn y gadeirlan fel cyrchfan i ymwelwyr	Ffeindio cyllid i ddatblygu canolfan ymwelwyr a thoiledau	Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru a Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Gweithio efo Tweedmill i annog eu hymwelwyr i alw yn Llanelwy hefyd	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
Hyfywedd gweddill siopau canol y dref	Gwella parcio yn Chester Street a llif traffig	Gwasanaethau Priffyrdd a Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Cynorthwyo sefydliad twristiaeth a grwpiau busnes	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 flwyddyn

Gwneud iddo ddigwydd...


ar gyfer y lle

Beth rydym eisiau ei gyflawni	Rydym am gyflawni hyn trwy	Bydd hyn yn cael ei arwain gan	Erbyn pryd
Gwell profiad i ymwelwyr	Daclo safleoedd ac adeiladau blêr fel yr Ystafelloedd Ocsiwn yn Geming Street, Elwy Bank, ffenestr ar y Stryd Fawr, ac mewn lleoliadau mynediad yn cynnwys y ffensys ger yr hen Ysbyty H.M. Stanley ac eiddo yn Chester Street	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir a Chyngor y Ddinas	1 – 5 mlynedd
	Adolygu'r parcio ar stryd ar Stryd y Felin ger maes parcio'r lawnt fowlio sy'n lleihau llif traffig i led un car	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 flwyddyn
	Cadw'r toiledau ar agor yn hirach a gwella ymddangosiad y mesurau diogelwch ar yr adeilad, cysidro tan-ddaearu gwifrau uwchben sydd ger toiledau y lawnt fowlio	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 flwyddyn
	Rhoi bwrdd trywydd y dref yn y maes parcio	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 flwyddyn
	Gwneud y stepiau yn Red Hill yn saffach	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 flwyddyn
	Torri'r gwair yn rheolaidd y tu allan i gyfnewidfa BT	BT	1 flwyddyn
	Gosod arwyddion ymwelwyr brown ar hyd yr A55 ar gyfer Dyffryn Clwyd	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Ailddosbarthu'r llwybr rhwng Lllys y Felin a'r Roe yn Llwybr Cyhoeddus	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Edrych ar ddatblygu tir diffaith rhwng y Stryd Fawr a Stryd Gemig fel ardal ar gyfer siopau crefft a rhai tai.	Priffyrdd y Cyngor Sir	5-10 mlynedd
	Ymchwilio i'r posibilrwydd o arddangosfa flodau ar y gylchfan yr A55.	Amgylchedd y Cyngor Sir	1 – 2 flynedd
Prosiectau Statws Dinas: 40 baneri stryd gyda logo Cyngor y Ddinas	Cyngor Dinas	1 – 2 flynedd	

	15 plac Codiau QR Llyfrynnau am deithiau cerdded o gwmpas y ddinas Gwefan Cyngor y Ddinas 6 cerflun		
Gwell llif traffig ar y Stryd Fawr	Cyfyngu'r amseroedd y gall y bragdy ddanfon a dadlwytho yng Nghlwb y Ceidwadwyr	Priffyrdd y Cyngor Sir	1 flwyddyn

Cysylltiadau rhwng y Ddinas a'r Ardal

Mae cymunedau Trefnant, Cefn Meiriadog, Tremeirchion, Waen a Rhualt â chysylltiad agos â Llanelyw gan fod trigolion yn defnyddio llawer o'r gwasanaethau sydd gan y dref i'w gynnig. Mae gwasanaeth bws rheolaidd i Llanelyw o Drefnant, ond mae'r cysylltiadau cludiant o ardaloedd eraill yn anaml neu ddim yn bodoli. Mae Trefnant yn gartref i Allfa Siopa Tweedmill ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cysylltiadau rhwng yr allfa siopa a Dinas Llanelyw.





CYNLLUN ARDAL
LLANELWY
“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”
2013 – 2020

Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer y bobl a'r gymuned

Gweithgarwch	Cyf. Uchel. Strat. Econ	Canlyniad	Dan arweiniad ...	Dechrau	Gorffen
Adolygu'r defnydd o'r bws ieuencid a'r rhaglen ieuencid cefn gwlad i gynnwys y cymunedau gwledig o amgylch Llanelwy.	5.2c	Cyfarfod gyda Chyngor Cymuned a Gwasanaethau Ieuencid	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Comisiynu astudiaeth dichonoldeb			
		Achos Busnes			
		Gweithredu gwasanaeth bws ieuencid i ardaloedd gwledig o amgylch Llanelwy (yn amodol ar achos busnes)			
Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael digwyddiadau ieuencid yn gysylltiedig â Chanolfan Hamdden Llanelwy h.y. digwyddiadau chwaraeon sy'n teithio o amgylch cymunedau gwledig.	5.2c	Cyfarfod gyda Chyngor Cymuned a Gwasanaethau Ieuencid	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Cyfarfod â grwpiau chwaraeon ieuencid yn y dref ac ardaloedd gwledig			
		Achos Busnes ac Astudiaeth			
		Gweithredu digwyddiadau ieuencid (yn amodol ar achos busnes)			
Ymchwilio i'r posibilrwydd o adfer y Clwb Ieuencid yn Neuadd Bentref Trefnant, yn dilyn adolygiad posibl o'r ddarpariaeth bws ieuencid yn y cymunedau o amgylch Llanelwy.	5.2c	Cyfarfod gyda Chyngor Cymuned a swyddogion perthnasol	Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Phobl Ifanc	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Comisiynu astudiaeth dichonoldeb			
		Achos Busnes			
		Adfer y Clwb Ieuencid (yn amodol ar achos busnes)			
Gwella cysylltiadau cludiant i drefi o ardaloedd gwledig. Dylai cysylltiadau cludiant gyd-fynd ag amseroedd ysgol ac amseroedd agor busnesau ac amseroedd agor gwasanaeth eraill.	1.1a	Cyfarfod gyda'r cwmnïau bysiau perthnasol	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Astudiaeth dichonoldeb i edrych ar y galw			
		Achos Busnes			

		Gweithredu gwasanaethau bws (yn amodol ar achos busnes)			
Mae angen cludiant i'r trefi agosaf o Lanelwy neu Ddinbych. Cyflwyno gwasanaeth bws yn y Waen sy'n stopio ger Maes Parcio'r Farmers Arms a bod amserlen benodol. Mae bws mini M&H yn mynd trwy'r Waen ond nid oes safle bws penodol nac amserlen.	1.1a	Cyfarfod gyda Chyngor Cymuned, darparwyr gwasanaethau a swyddogion perthnasol i ymchwilio i'r ddarpariaeth gwasanaeth bws presennol	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Achos Busnes			
		Gweithredu gwasanaethau bws (yn amodol ar achos busnes)			
Cyngor Sir Ddinbych i gefnogi ac ariannu cysylltiadau gyda Dial a Ride Gogledd Sir Ddinbych fel bod mwy o ddarpariaeth a ariennir o wasanaeth ceir cymunedol i bobl mewn ardaloedd gwledig ac y gall y gwasanaeth hwn hefyd gynnwys pobl o dan 60 oed, h.y. teuluoedd ifanc yn y Waen .	5.2c	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Achos Busnes			
		Gweithredu gwasanaeth 'dial a ride' (yn amodol ar achos busnes)			
Hwyluso trafodaethau rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir ar gyfer trosglwyddo'r cae'r ysgol yn Rhualt. b) Cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ddatblygu cae'r ysgol yn ardal chwarae i blant	5.2c	Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Prisio a Stadau b) Cyngor Cymuned	1 Rhag 2013	31 Mawrth 2014
		Adroddiad			
		Trosglwyddo'r cae ysgol i'r cyngor cymuned (yn amodol ar adroddiad)			
		Nodi a diogelu nawdd ar gyfer offer chwarae a datblygu'r cae			
Archwilio'r potensial i ostwng cyflymder yr ardal 40mya yn Rhualt i 30mya		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Gweithredu'r terfynau cyflymder is (yn amodol ar achos busnes)			
Archwilio'r potensial o gyflwyno terfynau cyflymder 20mya y tu allan i bob ysgol.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Achos Busnes			
		Gweithredu'r terfyn cyflymder 20mya (yn amodol ar achos busnes)			
Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno terfyn cyflymder 40 mya yn y Cross Foxes,		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			

Glascoed, ac ar Ffordd Glascoed y tu allan i'r tŷ cyngor ac i ymestyn y 30mya yng Nghoed Madog ac Eglwys Cefn.		Gweithredu'r terfynau cyflymder is (yn amodol ar achos busnes)	Amgylcheddol		
Archwilio'r potensial ar gyfer ymestyn y terfyn cyflymder 40 mya o gornel y blwch AA (A525) i Drefnant lle mae'r ardal 30mya yn dechrau.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
Archwilio'r potensial i ymestyn y llinellau melyn dwbl wrth yr ysgol ar Ffordd Henllan, Trefnant i tu hwnt i'r tro (nodi pa dro) i atal problemau gyda thraffig yn mynd rownd y tro pan fo ceir wedi'u parcio ar ddwy ochr y ffordd.		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned i benderfynu ar yr ardal benodol	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	1 Rhag 2013	31 Mawrth 2014
		Achos Busnes			
		Ymestyn yr ardal llinell felen (yn amodol ar achos busnes)			
Archwilio'r potensial i ymestyn y gilfan wrth Cae Onnen, Glascoed.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Ymestyn y gilfan (yn amodol ar achos busnes)			
Archwilio potensial o ostwng y terfyn cyflymder i 40mya rhwng traffordd yr A55 i Drefnant a Dinbych gan fod cerbydau'n teithio ar gyflymderau mawr. Mae llawer o bobl yn cerdded ar hyd y ffordd o Gapel Waen, y cartref nyrsio, gwesty a gweryll gan nad oes llwybr troed. Bu saith o ddamweiniau ar y ffordd rhwng Ion-Hydref 13.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Achos Busnes			
		Gweithredu'r terfynau cyflymder is (yn amodol ar achos busnes)			
Ystyried rhyddhau tir datblygu yn y Waen wrth adolygu'r CDLI.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Polisi, Gwybodaeth ac Ymchwil	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2017
		Achos Busnes			
		Cynnwys yn yr adolygiad o'r CDLI (yn amodol ar achos busnes)			
Datblygu cyfleoedd twristiaeth beicio a cherdded, a fydd hefyd yn dda ar gyfer lles lleol.	3.1A-a	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Nodi'r cyllid a'i sicrhau			
		Achos Busnes			
		Twristiaeth beicio a cherdded wedi cael ei ddatblygu (yn amodol ar achos busnes)			

Gwneud iddo ddigwydd...

ar gyfer yr ardal

Gweithgarwch	Cyf. Uchel. Strat. Econ.	Canlyniad	Dan arweiniad ...	Dechrau	Gorffen
Glanhau'r gyliâu, ffosydd, cylfatiau a'r draeniau a llunio cynllun blynyddol sy'n nodi pryd fydd yr adran briffyrdd yn eu glanhau a pha rai.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Gweithredu cynllun blynyddol (yn amodol ar achos busnes)			
Cynnal y llwybr troed cyhoeddus sy'n mynd ar hyd ochr y cae ysgol yn Rhualt.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Cynnal a chadw'r llwybr yn rheolaidd (yn amodol ar achos busnes)			
Ymchwilio i gael nawdd i gynnal gweithgareddau'r fforddolwr yn Nhremeirchion, Cwm a Waen		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Achos Busnes			
		Nodi'r cyllid a'i sicrhau			
		Gweithgarwch y fforddolwr yn cael ei ariannu (yn amodol ar achos busnes a bod cyllid ar gael)			
Ymchwilio i arwyddion yn y Waen sy'n nodi lle mae ardal y Waen yn ymestyn iddo.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Achos Busnes			
		Nodi'r cyllid a'i sicrhau			
		Gweithredu'r arwyddion ar gyfer y Waen (yn amodol ar achos busnes)			
Datrys problemau llifogydd rhwng Bwthyn Willow, yr hen dŷ pwmpio a'r gwaith dŵr yng Nghefn Meiriadog		Cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn canfod y broblem	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016
		Adroddiad arbenigol			
		Achos Busnes			
		Gwaith lliniaru llifogydd wedi'i weithredu (yn amodol ar adroddiad ac achos busnes)			

Sicrhau bod Swyddfa'r Post a Siop y Pentref yn Nhrefnant yn cael cefnogaeth i barhau i'r dyfodol.	5.2c	Cyfarfod gyda pherchnogion siopau a swyddogion perthnasol	Datblygu Economaidd a Busnes	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Ymchwilio i gyfleoedd ariannu			
		Achos Busnes			
		Cefnogi'r Swyddfa Bost a Siop y Pentref (yn amodol ar gyllid ac achos busnes)			
Archwilio'r potensial i helpu gyda chynnal a chadw gwarchodfa natur Plas Newydd.		Cyfarfod â'r Cyngor Cymuned	Gwasanaethau Cefn Gwlad	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2015
		Nodi'r cyllid a'i sicrhau			
		Achos Busnes			
		Cynnal a chadw'r Warchodfa Natur (yn amodol ar gyllid ac achos busnes)			

Gwneud iddo ddigwydd...

Ar gyfer swyddi

Gweithgarwch	Cyf. Uchel Strat. Econ.	Canlyniad	Dan arweiniad ...	Dechrau	Gorffen
Archwilio'r potensial i wella mynediad i swyddi drwy gysylltiadau cludiant gwell, datblygu sgiliau a mynediad at swyddi.	1.1c.	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Datblygu Economaidd a Busnes	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
	4.1a	Achos Busnes			
	4.1b	Gwell mynediad at swyddi (yn amodol ar achos busnes)			
	4.2d 4.2f				
Archwilio'r potensial i wella cymorth grant i fusnesau bach a rhoi gostyngiad mwy hael ar gyfraddau busnes i fusnesau bach.	2.1c.	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Datblygu Busnes / Cyfraddau Busnes	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
		Achos Busnes			
		Grantiau gwell a gweithredu cyfraddau busnes is (yn amodol ar achos busnes)			
Archwilio'r potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i gychwyn busnesau.	5.1a	Cyfarfod gyda swyddogion perthnasol	Datblygu Economaidd a Busnes	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017
	5.1b	Ymchwilio ffyrdd i gynyddu cyfleoedd i gychwyn busnesau			
		Achos Busnes			
		Mwy o gyfleoedd i gychwyn busnesau yn cael eu nodi (yn amodol ar achos busnes)			

Blaenoriaethau'r Cynllun Ardal

1. Cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ddatblygu cae'r ysgol yn ardal chwarae i blant – gyda chost wedi'i amcangyfrif o £8k.
2. Ymestyn y llinellau melyn dwbl wrth yr ysgol ar Ffordd Henllan, Trefnant i tu hwnt i'r tro (nodi pa dro) i atal problemau gyda thraffig yn mynd rownd y tro pan fo ceir wedi'u parcio ar ddwy ochr y ffordd - gyda chost wedi'i amcangyfrif o £2k.
3. Ymestyn y gilfan yng Nghae Onnen, Glascoed – gyda chost wedi'i amcangyfrif o £5k.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd cywir?

Bydd y Cyngor Sir, ynghyd â'r Cyngor Cymuned, yn cynnal adolygiadau blynyddol ar y cynnydd. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi yn rheolaidd i'r Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir a'r Cyngor Dinas, yn ogystal â'r gymuned ehangach trwy Llais y Sir a datganiadau i'r wasg gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Cynllun yn ddogfen fyw lle gellir ychwanegu a dileu dyheadau yn dibynnu ar y sefyllfa.

Pwy sydd wedi llunio'r cynllun?

Cafodd y cynllun hwn ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau gyda Chynghorwyr Sir a Gwasanaethau, aelodau'r Ward, Cynghorau Cymuned, busnesau, ysgolion a'r gymuned ehangach.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag
econ.dev@denbighshire.gov.uk

Atodiad Ystadegol
Data cyfrifiad 2011
Cymru;

Mynegai Amddifadedd Lluosog

Canran ...	Yn Llanelwy	Yn Sir Ddinbych	Yn yr Ardal wledig gerllaw
Pobl ifanc 15 oed neu iau	28.9	18.1	16.2
Pawb dros 65 oed neu hŷn	35.7	21.1	23.1
Pawb dros 85 oed neu hŷn	5.9	2.8	3.3
Pobl yn hawlio budd-dal tai neu Dreth y Cyngor	8.5	9.6	4.0
Cartrefi gorlawn	3.2	3.0	0.8
Pobl a aned yng Nghymru	63.8	58.1	60.3
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	25.5	18.6	25.4
Trigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus	39.5	35.7	37.5
Trigolion sy'n gweithio mewn gweithgynhyrchu	10.1	9.1	9.7
Trigolion sy'n gweithio mewn cyfanwerthu neu fanwerthu	13.3	14.4	11.9

“ardal canlyniad uwch haen is”	Sgor yn 2005	Sgor yn 2008	Sgor yn 2011
Dwyrain Llanelwy	1663	1562	1565
Gorllewin Llanelwy	632	714	696

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ardal Wledig yn cynnwys: Trefnant, Tremeirchion, Cefnmeiriadog a Rhualt*